



Adroddiad Blynyddol Byrddau Diogelu Rhanbarthol ***Gweithdrefnau Diogelu Cymru***

'Beth sy'n wahanol?'
Diogelu Oedolion

**Canllaw Cyflym i
Newidiadau Allweddol**

Mae'r Ddyletswydd i Adrodd wedi bod yn arfer cydnabyddedig yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ers cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), felly i lawer o ymarferwyr (y tu allan i'r awdurdod lleol, iechyd, yr heddlu) y prif newidiadau y dylid cymryd sylw ohonynt yw termau newydd, cyflwyno rôl y Person Diogelu Dynodedig, a'r newidiadau yn y pwyslais ar agweddau megis cyd-gynhyrchu, person-ganolog, eiriolaeth ac ati.

Ar gyfer awdurdodau lleol, iechyd a'r heddlu, bydd effaith y gweithdrefnau newydd ar gyfer oedolion ar brosesau mewnol yn fwy arwyddocaol.

Mae rhai agweddau ar y gweithdrefnau newydd yn dal i fod yn agored i rywfaint o ddehongli, felly os yw unrhyw un sy'n darllen y canllaw hwn yn pryderu am unrhyw wybodaeth a ddarperir, cysylltwch ag Uned Diogelu Busnes Caerdydd a Bro Morgannwg fel y gellir dilyn i fyny ar unrhyw faterion neu bryderon BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

Mae'r prif newidiadau a amlygir yn y 'Canllaw Cyflym' hwn wedi'u nodi gan grŵp gorchwyl o ymarferwyr diogelu Gwent ac maent wedi cael eu haddasu ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg, gyda diolch i Fwrdd Diogelu Gwent.

Adran 1

EGWYDDORION DIOGELU AC ARFERION EFFEITHIOL: OEDOLION SY'N WYNEBU RISG O GAEL EU CAM-DRIN A/NEU EU HESGEULUSO

Mae'r adran hon yn amlygu'r egwyddorion diogelu, sy'n sail i'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r gweithdrefnau. Mae'n disgrifio fel mae arferion effeithiol yn fwyaf tebygol o ddigwydd os oes cysondeb ym mhob un o'r uchod. Yn yr adran hon ceir diffiniadau o oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso, yn ogystal ag arwyddion a dangosyddion cam-drin.

Mae diogelu effeithiol yn mynnu bod pob ymarferwr a sefydliad yn chwarae eu rhan yn y broses ac yn gyfarwydd â gweithdrefnau eu sefydliad ac yn eu dilyn. Mae'r canllawiau '*Ymdrin ag Achosion Unigol*' yn disgrifio'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i systemau diogelu ar gyfer plant sy'n wynebu risg.

Mae'n diffinio dull sy'n canolbwyntio ar y person gan gydnabod:

- y dylai hawliau'r unigolyn fod yn hollbwysig i'r dull,
- y dylai budd gorau'r unigolyn bob amser fod yn hollbwysig ac y dylid canfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn,
- pwysigrwydd hybu a pharchu urddas yr unigolyn,
- bod angen ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn,
- pwysigrwydd darparu cymorth priodol i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y broses.

Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer:

- **Dylid cynnig ymyrraeth gynnar** i unigolion lle bynnag y bo modd, i'w hatal rhag dod yn oedolyn mewn perygl ac mae'n hanfodol bod yr oedolyn yn cymryd rhan weithredol wrth benderfynu ar y ffordd orau o fodloni ei anghenion.
- Pwysleisir **dilyn dull sy'n canolbwyntio ar y person, a chyd-gynhyrchu gyda'r oedolyn mewn perygl** drwy gydol y gweithdrefnau newydd
- Bydd angen i ymarferwyr feddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau sydd ar gael iddynt er mwyn cymhwyso'r egwyddorion diogelu; mae angen i reolwyr ac asiantaethau gefnogi datblygiad parhaus sgiliau/gwybodaeth berthnasol staff, yn ogystal â sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gefnogi cyd-gynhyrchu, ffyrdd o weithio sy'n canolbwyntio ar y person, a galluogi ymgysylltu ag oedolion mewn perygl yn y ffyrdd y mae'r gweithdrefnau newydd yn eu hawgrymu.

Adran 2

Y DDYLETSWYDD I ADRODD AM OEDOLYN SYDD MEWN PERYGL O GAMDRINIAETH A/NEU ESGEULUSTOD

O dan Adran 162 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), cyflwynwyd y Ddyletswydd i Adrodd ar bartneriaid perthnasol ac mae hyn yn parhau i fod yr un fath yn y gweithdrefnau newydd. Er nad ystyrir bod y trydydd sector yn bartner perthnasol, gwelir bod yr un disgwyliadau a rhwymedigaethau yn berthnasol.

Drwy gydol Adran 2, mae ffocws ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae yna hefyd symudiad tuag at sefydlu arfer gorfodol ychwanegol, mewn meysydd yr ystyrir yn flaenorol fel 'arfer gorau'.

Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer

- Mae angen i'r **Ffurflen Dyletswydd i adrodd (DTR)** amlasiantaeth ranbarthol adlewyrchu ffyrdd o weithio sy'n 'canolbwyntio ar yr person', gan gynnwys safbwynt y cleient ar ganlyniadau diogelu (mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddiweddarau ffurflen DTR, WCCIS ac ati, ac wedi ei chwblhau, bydd y ffurflen DTR ar gael ar wefan Bwrdd Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg).
- Mae'n rhaid dangos tystiolaeth o ganlyniad sy'n canolbwyntio ar y person yn y casgliad nawr e.e. a ydy'r unigolyn yn teimlo'n fwy diogel erbyn hyn?
- Mae'r termau **Adroddiad** (h.y. atgyfeiriad) ac '**Adroddwr**' (atgyfeiriwr) wedi'u mabwysiadu.
- Dylai adborth/cydnabyddiaeth benodol bod y DTR wedi'i derbyn gael ei darparu gan yr Awdurdod Lleol (ALL)... newid hyn i fod yn orfodol yn hytrach nag yn arfer gorau.
- Bydd angen ystyried Ffurflenni DTR 'mewn perygl' nawr ... newid i fod yn orfodol yn hytrach nag yn arfer gorau.
- Os aiff yr awdurdod lleol ymlaen ag adroddiad diogelu **yn erbyn dymuniadau'r person**, mae angen rhesymau cyfiawnadwy dros wneud hynny. Mae'r gweithdrefnau'n manylu ar sawl maes lle y gallai fod angen ystyried hyn e.e. lle gellid colli tystiolaeth bwysig, lle mae gofalwr neu aelod o'r teulu yn gamdriniwr posibl, neu er budd y cyhoedd.
- Os aiff y broses rhagddi a'r person yn gwrthod ei **gydsyniad**, mae angen i ni roi gwybod i'r oedolyn sydd mewn perygl
- Rôl newydd y **Person Diogelu Dynodedig (PDD)**

Y Person Diogelu Dynodedig yw'r person a enwebwyd yn y sefydliad (y tu allan i'r ALL):

- *sydd ar gael i drafod pryderon diogelu*
- *y dylid ymgynghori â hi/fe pan fo'n bosibl ynghylch codi pryder diogelu â'r ALL*
- *a fydd yn rheoli unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu rhoi ar waith yn syth i sicrhau bod yr unigolyn mewn perygl yn ddiogel rhag camdriniaeth*

Dylai pob ymarferwr wybod â phwy y dylent gysylltu yn eu hasiantaeth i gael cyngor. Er y dylid gwneud pob ymdrech i geisio cyngor gan PDD, mae'n bosibl y bydd angen i'r ymarferydd gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol, yn arbennig petai cysylltu â'r PDD yn arwain at oedi diangen.

- Wrth geisio cyngor gan y tîm diogelu, yn dilyn y drafodaeth, mae'r cyfrifoldeb am gyflwyno adroddiad ai peidio yn parhau gyda'r adroddwr.
- Rhagdybir bod **gallu** drwy gydol y gweithdrefnau newydd
- Maent yn rhoi eglurder ychwanegol o ran ystyried **gallu** - dylai'r tîm diogelu ystyried hefyd lefel yr **orfodaeth** y gall y person fod o dani.
- Mae dogfen **Canllawiau Trothwyon** rhanbarthol newydd wrthi'n cael ei datblygu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i gefnogi Dyletswydd Adrodd fwy priodol a bydd ar gael ar wefan Bwrdd Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg yn fuan.

Adran 3 Rhannau 1 a 2

YMATEB I ADRODDIAD AM OEDOLYN SY'N WYNEBU RISG O GAEL EI GAM-DRIN A/NEU EI ESGEULUSO

Mae'r adran hon yn cynnig arweiniad ar gyfer ymateb i adroddiad, gan fanylu ar y tasgau – diffinio rolau'r '**Adroddwr**' a'r '**Cofnodwr Adroddiad**', cysylltu â'r heddlu ac amlinellu'r broses – mae hyn yn cynnwys ymholiadau **A126** a manylion yn ymwneud ag ymateb i adroddiad, y broses ar gyfer **trafodaeth/cyfarfod strategaeth** a gweithdrefnau yng nghyd-destun sefyllfaoedd cymhleth.

Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer:

- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno canllawiau penodol ar y meysydd y dylid ymdrin â hwy drwy ymholiadau A126.
- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno amserlen i'r oedolyn gael ei weld mewn pum amgylchiad penodol (anaf corfforol, cam-drin rhywiol, eisoes yn destun cynllun amddiffyn, esgeulustod difrifol / risg difrifol arall i iechyd, person wedi'i adael)
- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno 3 chanlyniad posibl i ymholiadau A126 (penderfyniadau) yn ogystal â 'dim camau pellach' fel opsiwn posibl.
- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno terminoleg newydd – Cydlynnydd Arweiniol a'r Ymarferydd Arweiniol (gweithiwr cymdeithasol dynodedig fel arfer)
- Cyflwynir gweithdrefnau newydd sy'n ymwneud â dirprwyo cyfrifoldeb am gynnal ymholiadau i asiantaethau partner megis iechyd (sy'n gofyn am eglurhad ac arweiniad mwy penodol).
- Mae rôl yr Ymarferwr Arweiniol yn nodi cyfrifoldebau mewn perthynas â'r cynllun gofal a chymorth parhaus.
- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno meysydd penodol i'w cynnwys yn rhan o gyfarfodydd strategaeth
- Mae'r gweithdrefnau yn cyflwyno newidiadau i'r broses ar gyfer cynadleddau amddiffyn oedolion (mae hyn yn cynnwys amserlenni penodol i ddarparu adroddiadau gan asiantaethau - dau ddiwrnod cyn y gynhadledd, disgwyliad clir bod y cadeirydd yn cyfarfod â'r oedolyn mewn perygl cyn ac ar ôl y gynhadledd, canllawiau ar yr oedolyn mewn perygl yn cael mynediad at wybodaeth a gesglir fel rhan o adroddiad ymchwiliad)

Mae'r goblygiadau ar gyfer mabwysiadu'r gweithdrefnau newydd hyn yn cynnwys yr angen i ddatblygu ffurfiau newydd/diwygiedig a'r seilwaith perthnasol yn y systemau electronig i gefnogi'r arfer hwn (sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg), yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer staff a fydd yn gweithredu fel 'Adroddwyr' (staff gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth gan eu bod yn brif ffynhonnell adroddiadau ynghyd â staff amlasiantaeth) a'r 'Cofnodwyr Adroddiad' (timau diogelu a/neu wasanaethau GCC).

Mae rhai ystyriaethau penodol o ran dirprwyo cyfrifoldeb yn ystod cam yr ymchwiliad a'r rhyngwyneb rhwng yr ALI a phartneriaid fel iechyd. Mae'r gweithdrefnau newydd yn cydnabod y gellir dirprwyo ymholiadau i asiantaethau partner megis iechyd, ond nid oes canllawiau clir ynghylch pryd/sut y dylai hyn ddigwydd. Nid yw'n glir ai'r ALI yn unig sy'n gwneud penderfyniadau sgrinio cychwynnol ynteu a ellir dirprwyo hyn i bartner megis iechyd. Nid oes unrhyw awgrym y dylid gwneud penderfyniadau sgrinio ar y cyd ag iechyd lle mae'n ymwneud â phryder ynghylch iechyd.

Dyletswydd yr ALI fydd penderfynu ar ganlyniad yr ymholiadau A126 yn dal i fod, hyd yn oed pan fydd asiantaeth arall yn gwneud ymholiadau, oherwydd bydd angen cydweithredu/gwneud penderfyniadau gydag iechyd ar gyfer achosion iechyd dirprwyedig oherwydd natur glinigol yr ymholiadau hyn.

Mae'r gweithdrefnau newydd yn codi cwestiynau ynghylch rôl yr **Ymarferwr Arweiniol** yn cael ei chymryd gan nyrs oherwydd cyfrifoldebau clir arni mewn perthynas â'r cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth Parhaus. Mae'n ymddangos na fyddai nyrs yn gallu cyflawni holl swyddogaethau'r rôl hon, dim ond yr agweddau sy'n ymwneud ag iechyd.

Mae dirprwyo i asiantaethau partner fel iechyd hefyd yn codi cwestiynau ynghylch pwy fydd yn cadw'r cofnodion ar gyfer ymholiadau a ddirprwyir.

Camau gweithredu rhanbarthol/gwaith sy'n mynd rhagddynt:

- Diwygio ffurflen DTR
- Cytuno ar/creu Offeryn Sgrinio
- Dyfeisio ffurflen i dystio ymholiadau a chanlyniadau adran 126
- Datblygu sail resymegol ar gyfer dirprwyo rôl y cydgysylltydd arweiniol (Memorandwm Cydddealltwriaeth)
- Cytuno/creu agendâu newydd ar gyfer cyfarfodydd
- Datganiad newydd o gyfrinachedd
- Addasu'r cynllun amddiffyn

Ystyriaethau eraill:

- Sut rydym yn rheoli/hwyluso cynadleddau achos
- Deall, gwerthfawrogi a rhannu manylion am effaith bosibl gweithdrefnau newydd o ran timau/capaciti gweithredol
- Ystyried ac egluro agweddau mewn perthynas â dirprwyo cyfrifoldeb yn ystod y cam ymholi (gan gynnwys pwy fydd yn cadw cofnod o'r ymholiad) a'r rhyngwyneb rhwng yr ALI a phartneriaid megis iechyd (rhoi arweiniad).
- Egluro terminoleg (trafodaeth/cyfarfod strategaeth)
- Egluro a yw rôl y Cydlynnydd Arweiniol yn cael ei neilltuo cyn neu ar ôl ymholiadau
- Ystyried cyfyngiadau gweithwyr proffesiynol eraill (fel nyrsys), o ran eu gallu i gyflawni holl swyddogaethau rôl yr Ymarferwr Arweiniol (wedi'i ddilyn gan eglurhad a/neu ganllawiau ychwanegol)
- Ystyried ac egluro sut y bydd rôl Ymarferydd Arweiniol yn rhyngwynebu ag achosion cysylltiedig ag iechyd/dirprwyedig
- Ystyried meini prawf/canllawiau trothwy o ran y sefyllfaoedd lle y dylid gweld oedolion mewn perygl ar yr un diwrnod: anaf corfforol, cam-drin rhywiol, eisoes yn destun cynllun amddiffyn, esgeulustod difrifol/unrhyw risg difrifol arall i iechyd, oedolyn wedi ei adael.

Adran 4

Cynllunio ac ymyrryd ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg o gam-drin ac esgeulustod

Mae'r adran hon yn nodi rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr o ran cynllunio a chyflawni ymyriadau i fodloni anghenion gofal, cymorth a diogelu oedolyn mewn perygl

Mae Adran 4 yn rhoi arweiniad ar sut y cyflawnir hyn drwy ddarparu cynllun amddiffyn gofal a chymorth. Mae gan ymarferwyr rôl a chyfrifoldebau clir o ran y cynllun amddiffyn gofal a chymorth. Yn y gweithdrefnau newydd, canolbwyntir yn glir ar gyd-gynhyrchu mewn perthynas â datblygu'r cynllun amddiffyn gofal a chymorth a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gryfderau. Bydd angen i'r ffocws fod ar y person a bydd angen gwneud trefniadau sylweddol i alluogi'r oedolyn sy'n wynebu risg i gymryd rhan yn natblygiad ei gynllun amddiffyn gofal a chymorth.

Mae terminoleg newydd a newidiadau wedi'u cymhwyso ar gyfer rolau sy'n bodoli eisoes sy'n cynnwys datblygu'r Cydgysylltydd Arweiniol, yr Ymarferwr Arweiniol a'r Cydgysylltydd Arweiniol dirprwyedig. Mae rôl yr Ymarferwr Arweiniol wedi newid yn sylweddol a bydd angen i ymarferwyr ddeall eu dyletswyddau statudol newydd sy'n cynnwys gweld yr oedolyn o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod/trafodaeth strategaeth gyda 4 ymweliad wythnosol dilynol.

Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer

- Y **Cydlynnydd Arweiniol** yw'r teitl newydd ar gyfer y Rheolwr Arweiniol Dynodedig.
- Mae'r **Cydgysylltydd Arweiniol Dirprwyedig** yn debygol o fod yn uwch weithiwr proffesiynol sy'n ymgymryd â'r rôl a gyflogir gan sefydliad arall, er enghraifft Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

- Mae'r **Ymarferwr Arweiniol** yn debygol o fod y gweithiwr cymdeithasol/cydgysylltydd gofal dynodedig a bydd yn gyfrifol am ddiweddarau'r cynllun amddiffyn gofal a chymorth. Cyfrifoldeb y person yma fydd sicrhau ei fod yn canfod **anghenion gofal a chymorth holistaidd** yr oedolyn, a dylai hyn **ganolbwyntio ar y person** a bod yn **seiliedig ar gryfderau**. Ni fydd cynllun amddiffyn oedolion ar wahân mwyach. Bydd pob maes angen yn cael ei ddogfennu ar un cynllun amddiffyn gofal a chymorth.
- Bydd yr Ymarferydd Arweiniol yn gyfrifol am ymgysylltu â'r oedolyn ac am sicrhau lle bo'n bosibl ei fod yn cyfrannu at ddatblygu ei **gynllun amddiffyn gofal a chymorth**
- Mae ffocws ar **ymgysylltu â'r oedolyn**, cael gwybod ei farn a'i ddymuniadau'n rheolaidd
- Dylai'r cynllun amddiffyn gofal a chymorth gael ei adolygu'n rheolaidd gan y **Grŵp Strategaeth** (y bobl sy'n bresennol yn y cyfarfod/trafodaeth strategaeth)
- Bydd yr Ymarferwr Arweiniol yn gyfrifol am ddiweddarau'r cynllun amddiffyn gofal a chymorth er mwyn sicrhau ei fod yn crynhoi anghenion gofal a chymorth holistaidd yr oedolyn.
- Bydd y cynllun amddiffyn gofal a chymorth yn ceisio dileu neu leihau risg gyda'r pwyslais ar strategaeth rheoli risg i gefnogi'r oedolyn i **gyflawni ei ganlyniad dymunol**.

Camau gweithredu rhanbarthol/gwaith sy'n mynd rhagddynt:

- Ystyried sut y bydd 4 ymweliad statudol wythnosol yn cael eu rheoli a'u dogfennu.
- Datblygu cynllun gofal a chymorth y gellir ei gynnal yn y system WCCIS y gellir ei ddiwygio yn dilyn adolygiadau rheolaidd
- Datblygu ymyrraeth hyfforddi Cam 3 (ALI ac Iechyd) mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau'r Cydgysylltydd Arweiniol a'r Ymarferydd Arweiniol.

Adran 5

PRYDERON DIOGELU AM YMARFERWYR A'R RHAI SYDD MEWN SWYDDI GYDA CHYFRIFOLDEB

Mae Adran 5 yn nodi ymateb statudol Awdurdodau Lleol i bryderon ynghylch ymarferwyr (pryderon proffesiynol gynt). Er bod pryderon proffesiynol, yn draddodiadol, wedi'u nodi, eu hasesu a'u rheoli'n rhan o'r broses Diogelu Oedolion, mae angen proses ar wahân yn ôl y gweithdrefnau newydd hyn ar gyfer pryderon ynghylch ymarferwyr (term cyffredinol newydd ar gyfer pawb) sy'n gallu cydreddeg â'r broses ddiogelu, neu heb oedolyn penodol sydd mewn perygl, ar wahân.

Mae'r dull hwn o weithredu'n cyfateb i'r Gwasanaethau Plant ac mae'n newid sylfaenol o ran arfer. Fel y cyfryw, bydd y goblygiadau o ran mabwysiadu'r gweithdrefnau newydd hyn yn cynnwys yr angen i ddatblygu cyfres newydd o ffurflenni a'r seilwaith perthnasol yn WCCIS i gefnogi'r arfer hwn, yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer staff diogelu craidd y bydd angen iddynt weithredu'r newid hwn yn eu hymarfer gweithredol o ddydd i ddydd. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen cwblhau gwaith codi ymwybyddiaeth ar sail aml-asiantaeth.

Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer:

- Bellach, mae angen ystyried atgyfeiriadau diogelu oedolion sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol/pobl sydd mewn swydd â chyfrifoldeb o dan Brothocol Pryderon Proffesiynol
- Nid oes cyfeiriad at rôl 'Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu' a fydd yn rheoli proses y pryderon proffesiynol, fel un sy'n addas i'w dirprwyo i bobl mewn asiantaeth bartner arall (fel Iechyd).
- Bydd atgyfeiriadau diogelu oedolion a phryderon proffesiynol yn rhedeg ar y cyd.
- Bydd trafodaethau strategaeth broffesiynol bob amser yn digwydd gyda'r heddlu i benderfynu a yw hyn yn cyrraedd y trothwy ar gyfer pryderon proffesiynol.
- Canllawiau ar bynciau a strwythur y Cyfarfod Gweithwyr Proffesiynol.

- Bellach gellir cofnodi pedwar canlyniad posibl; Heb gyfiawnhau, Wedi cyfiawnhau, Di-sail a wedi Dyfeisio yn fwriadol a/neu'n faleisus.
- Bydd angen i weithwyr proffesiynol/y rhai sydd mewn swyddi â chyfrifoldeb dan drafodaeth gael eu cofnodi ar WCCIS a chael gwybod am hyn

Camau gweithredu rhanbarthol/gwaith sy'n mynd rhagddynt:

- Trothwy rhanbarthol ar gyfer diogelu oedolion, sy'n cynnwys nodi pryderon proffesiynol.
- Agenda Newydd/Aide Memoire ar gyfer y cyfarfod pryderon proffesiynol
- Canllawiau canlyniadau i gynorthwyo ymarferwyr wrth farnu honiadau
- Cytundeb ynghylch sut mae'r Broses Diogelu Oedolion a'r Broses Pryderon Proffesiynol yn cael eu rhedeg ar y cyd
- Hysbysu'r heddlu o'r cynnydd posibl yn y galw am drafodaethau strategaeth
- Polisi diogelu/cadw data WCCIS o ran gweithwyr proffesiynol a nodwyd
- Ystyried effaith canllawiau cenedlaethol ar y polisi pryderon proffesiynol rhanbarthol presennol
- Ystyried/egluro sut y bydd y broses pryderon ymarferwyr yn rhyngwynebu ag achos amddiffyn oedolyn yn enwedig achosion amddiffyn oedolion a ddirprwywyd i iechyd
- Ystyried/egluro rôl y 'Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu' gan nad oes sôn yn y gweithdrefnau newydd y gellir dirprwyo hyn i asiantaeth partner megis iechyd.
- Ystyried sut y gallwn weithio gyda darparwyr, comisiynwyr, AGC i weithredu newidiadau/gwelliannau o amgylch cyfarfod strategaeth broffesiynol

Ystyriaethau eraill:

Yn flaenorol, rheolid y broses pryder proffesiynol o ran ymarferwr sy'n ymwneud ag atgyfeiriad diogelu penodol ym maes iechyd gan BIPAB. Yn y gweithdrefnau newydd, nid oes cyfeiriad at rôl 'Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu' a fydd yn gwneud hyn, gan ei bod yn briodol ei dirprwyo i asiantaeth arall.